

Adolygiad o Drefniadau Arbed Costau – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4504A2024

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Amcanion a chwmpas ein gwaith	4
Canfyddiadau allweddol	5
Argymhellion	13
Atodiadau	
Atodiad 1 – Meini prawf archwilio	16
Atodiad 2 – Dulliau archwilio	21
Atodiad 3 – Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio	23

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae GIG Cymru yn wynebu heriau ariannol digynsail. Effaith barhaus pandemig COVID-19 ar alw a darpariaeth gwasanaethau; y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â staffio, ynni, meddyginiaethau, a chynnal ystad sy'n heneiddio; ac mae mynd i'r afael â'r cyflyrau iechyd cymhleth sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio i gyd yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu ar draws y GIG.
- 2 Er bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod £425 miliwn ychwanegol ar gael i'r GIG ym mis Hydref 2023, roedd sefyllfa diwedd blwyddyn 2023-24 ar gyfer GIG Cymru yn ddiffyg cyfunol o £183 miliwn. Er bod rhai cyrff y GIG yn gallu cyflawni balans ariannol diwedd blwyddyn, roedd y sefyllfa i eraill – yn enwedig rhai Byrddau Iechyd – yn heriol gyda nifer yn methu cyflawni'r diffyg rheoli¹ a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru.
- 3 Mae'r sefyllfa ar gyfer 2024-25 yr un mor heriol, os nad yn fwy heriol. Bydd angen i gyrff iechyd sicrhau bod ganddynt ddulliau cadarn ar waith i nodi a chyflawni cyfleoedd gwella costau yn ystod y flwyddyn a hefyd i fod â dull tymor hwy o gyflawni cynaliadwyedd ariannol sy'n symud i ffwrdd o ddulliau tymor byr o ymdrin â rhai lle cyflawnir arbedion trwy drawsnewid modelau gwasanaeth a ffyrdd o weithio.

Amcanion a chwmpas ein gwaith

- 4 O ystyried yr heriau a amlinellir uchod, amcan ein hadolygiad yw archwilio a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o nodi, cyflawni a monitro cyfleoedd arbed costau cynaliadwy. Mae'r meini prawf archwilio manwl wedi'u nodi yn **Atodiad 1**.
- 5 Gwnaed y gwaith i gyflawni dyletswydd statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
- 6 Gwnaethom ein gwaith rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Mawrth 2024. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'u crynhoi yn **Atodiad 2**. Mae ein gwaith yn gwneud sylwadau ar y dull o weithredu o fewn y Bwrdd Iechyd i nodi, cyflawni a goruchwyllo cyfleoedd arbed costau. Mae'n ystyried yr effaith a gafodd y trefniadau hyn ar sefyllfa diwedd blwyddyn 2023-24 ac mae'n amlygu lle y gallai fod angen cryfhau trefniadau ar gyfer 2024-25 a thu hwnt.

¹ Dyrannwyd sefyllfaoedd diffyg diwygiedig ar gyfer 2023-24, a elwir yn 'gyfansymiau rheoli', i Fyrddau Iechyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2023 ar ôl darparu cyllid ychwanegol i gefnogi eu sefyllfaoedd ariannol.

Canfyddiadau allweddol

- 7 Ar y cyfan, canfuom, **er nad oedd y Bwrdd lechyd wedi cyflawni ei darged diffyg cytunedig ar gyfer 2023-24, mae angen iddo gryfhau ei ddull gweithredu cyffredinol o ran nodi a chyflawni arbedion cylchol a sicrhau bod ei gynlluniau trawsnewid gwasanaeth yn cyd-fynd â chynlluniau ehangach i ddychwelyd y sefydliad i sefyllfa o gynaliadwyedd a balans ariannol.**
- 8 Mae'r canfyddiadau sy'n cefnogi ein casgliadau cyffredinol wedi'u crynhoi isod o dan y penawdau canlynol:
- Nodi cyfleoedd arbed costau
 - Cyflawni cynlluniau arbed cost
 - Monitro a goruchwyllo cynlluniau arbedion

Nodi cyfleoedd arbed costau

- 9 Gwnaethom ystyried y canlynol:
- mae gan y Bwrdd lechyd ddealltwriaeth glir o'r ffactorau sy'n ysgogi ei gostau;
 - mae'r Bwrdd lechyd yn defnyddio amrywiaeth o ddata a deallusrwydd yn rheolaidd i helpu i nodi cyfleoedd arbed costau;
 - mae gan y Bwrdd lechyd ddull effeithiol o ddewis cyfleoedd arbed costau.
- 10 Canfuom fod gan y **Bwrdd lechyd ddealltwriaeth dda o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gostau, a phroses glir ar gyfer nodi cyfleoedd arbed costau. Fodd bynnag, bydd angen iddo wella'r ffordd y mae'n defnyddio data a deallusrwydd i nodi cyfleoedd arbedion cynaliadwy a sicrhau bod ei gynlluniau ar gyfer trawsnewid gwasanaethau wedi'u datblygu'n ddigon da i gefnogi cynlluniau ehangach y Bwrdd lechyd ar gyfer cyflawni cynaliadwyedd ariannol.**

Deall ffactorau sy'n ysgogi costau

- 11 Mae gan y Bwrdd lechyd ddealltwriaeth dda o'r ffactorau sy'n ysgogi ei gostau, sydd wedi'u nodi'n glir yn ei Gynllun Blyneddol 2024-25. Mae'r rhain yn cynnwys NICE (Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth lechyd a Gofal) a chyffuriau cost uchel, gweithgarwch a gomisiynwyd, buddsoddiadau lleol, Gofal lechyd Parhaus, presgripsiynu a phwysau chwyddiant nad ydynt yn ymwneud â chyflog, Cronfa Risg Cymru, a'r costau parhaus sy'n gysylltiedig ag ymateb i waddol pandemig COVID-19. Mae'r pwysau costau hyn ynghyd â datblygiadau gwasanaethau² yn ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at ei ddiffyg sylfaenol cynyddol.

² Mae datblygiadau gwasanaethau yn cynnwys twf anochel ac ystod o fuddsoddiadau mewn gwasanaethau cenedlaethol a rhanbarthol, er enghraifft, gwasanaethau trydyddol, fel gwasanaethau arbenigol i blant, a buddsoddiad hanfodol yng ngwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, gan gynnwys cyffuriau canser newydd arloesol.

- 12 Er i'r Bwrdd lechyd gyflawni cyfanswm diffyg rheoli o £16.4 miliwn yn 2023-24, dirywiodd ei ddiffyg ariannol sylfaenol ac mae bellach yn £60.9 miliwn. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cyflwyno Cynllun Blynnyddol ar gyfer 2024-25 gyda tharged arbedion cylchol o £47.2 miliwn. Mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu sefydlogi ei sefyllfa ariannol yn ystod 2024-25 ac mae wedi gosod uchelgais i gyflawni sefyllfa ddiffyg o £15.9 miliwn. Ei nod yw sicrhau balans ariannol erbyn 2025-26.
- 13 Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen iddo drawsnewid ei wasanaethau i reoli'r ffactorau sy'n ysgogi costau yn well a chyflawni cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Felly, mae'n datblygu rhaglen o effeithlonrwydd craidd ac arbedion trawsnewidiol sy'n cyd-fynd â themâu/ffrydiau gwaith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd cenedlaethol (VSB).³
- Mae'r Bwrdd lechyd hefyd wedi ymrwymo i ysgogi lleihau costau pellach ar draws chwe maes allweddol:
- lleihau dibyniaeth ar asiantaethau cost uchel;
 - cryfhau trefniadau 'Unwaith i Gymru' i alluogwyr allweddol y gweithlu fel recriwtio a digidol;
 - manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer gweithio rhanbarthol;
 - ailddosbarthu adnoddau i ofal cymunedol a sylfaenol;
 - lleihau amrywiad diangen ac ymyriadau gwerth isel;
 - cynyddu effeithlonrwydd gweinyddol.
- 14 Bydd cyflawni rhai o'r cyfleoedd arbedion hyn yn gofyn am weithredu modelau gofal newydd ac ailgynllunio'r llwybrau gofal presennol i wella llif a lleihau perfformiad is-optimadd o ran hyd arhosiad. Ar ben hynny, bydd yr amserlenni sy'n gysylltiedig â thrawsnewid gwasanaethau yn gofyn i'r Bwrdd lechyd barhau i nodi a chyflawni arbedion, yn enwedig yn y tymor byr. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu ei Gynllun Gwasanaethau Clinigol 10 mlynedd⁴ y mae'n bwriadu ei lansio erbyn Chwarter 4 2024-25. Er bod y Bwrdd lechyd wedi nodi na fydd y cynllun 10 mlynedd lefel uchel yn cael ei gostio, bydd angen nodi'n glir y costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â thrawsnewid ei wasanaethau a sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer trawsnewid gwasanaethau yn cefnogi cynlluniau'r Bwrdd lechyd i roi ei gyllid ar sail fwy cynaliadwy. **(Argymhelliad 1)**

Defnyddio data a deallusrwydd i nodi a dewis cyfleoedd arbed costau

- 15 Mae angen cryfhau trefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer defnyddio data a deallusrwydd i lywio, adnabod a dewis arbed costau. Er ei fod yn defnyddio data a

³ Sefydlwyd y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd cenedlaethol (VSB) gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei gadeirio gan Weithrediaeth y GIG i ganolbwyntio ar themâu penodol i gyflawni effeithlonrwydd posibl Cymru gyfan. Mae'r ffrydiau gwaith yn cynnwys Gofal lechyd Parhaus, Rheoli Meddyginiaethau, Gweithlu, Di-Dâl, ac Amrywiad Clinigol.

⁴ Bydd y Cynllun Gwasanaethau Clinigol 10 mlynedd yn disgrifio uchelgais hirdymor y Bwrdd lechyd ar gyfer ei wasanaethau a'i daith i gyrraedd yno.

deallusrwydd o rai ffynonellau fel adolygiadau CHKS⁵, VAULT,⁶ GIRFT⁷ ac adolygiadau Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth Lleol, mae hyn yn bennaf mewn perthynas â nifer fach o feysydd blaenoriaeth ar hyn o bryd, fel rhaglen cau gwelyau'r Bwrdd Iechyd. Mae lle, felly, i'r Bwrdd Iechyd gynyddu ei ddefnydd o ddata a deallusrwydd ar draws ystod ehangach o wasanaethau er mwyn gwneud y mwyaf o nodi a dewis cyfleoedd arbed costau. **(Argymhelliad 2.1)**

16 Ar ben hynny, er bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu storfa leol i helpu i gasglu'r wybodaeth hon yn fwy systematig, nid yw'n gwireddu'n llawn y manteision sydd ar gael o feincodi ei ffynonellau data ar hyn o bryd sy'n atal ei allu i nodi a dewis cyfleoedd arbed costau. **(Argymhelliad 2.2)**

17 Er bod gan y Bwrdd Iechyd raglen, prosesau ac offer ar waith i geisio, nodi ac asesu cyfleoedd arbed costau fel yr amlinellir yn ei strategaeth hirdymor – 'Llunio Dyfodol Ein Lles' – a'r Rhaglen Gwerth mewn Gofal Iechyd, ar hyn o bryd nid oes ganddo drefniadau systematig ar waith ar gyfer chwilio am syniadau arbed costau o bob ffynhonnell, gan gynnwys ei ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid ehangach. **(Argymhelliad 2.3)**

18 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu Rhaglen Gwerth mewn Iechyd a thîm ymroddedig i ddefnyddio adnoddau sefydliadol yn fwy teg, cynaliadwy a thryloyw i gyflawni canlyniadau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau gwell. Yn ystod 2024-25, nod y tîm yw adeiladu capasiti a gallu i ddefnyddio egwyddorion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd yn ymarferol; ymgorffori mesur ac adrodd ar ganlyniadau cleifion, ariannol a chymdeithasol; a sefydlu dull gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth ar gyfer cynllunio strategol a chyflwyno gweithredol. Er bod y Tîm Gwerth mewn Iechyd wedi datblygu strategaeth i gefnogi ymgorffori'r egwyddorion Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth a dechrau hwyluso gwireddu buddion, bydd angen iddo hefyd ddangos enillion buddsoddiad yn ymarferol yn glir trwy sicrhau ei fod yn cyflawni gostyngiadau ac arbedion costau ystyrlon. **(Argymhelliad 3)**

Dewis cyfleoedd arbed costau

19 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rhesymol effeithiol ar gyfer dewis cyfleoedd arbed costau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dilyn dull o'r brig i lawr a'r gwaelod i fyny o nodi a gwerthuso cyfleoedd arbed costau posibl sy'n sail i'w fwrriad strategol. Mae Prif Berchnogion Cyfrifol (SROs) yn cael y dasg o drefnu cyfarfodydd rheolaidd i ysgogi cyfleoedd a nodir ym mhob Bwrdd Clinigol, cysylltu â phersonél perthnasol, datblygu cynlluniau gweithredu manwl, ac asesu dilysrwydd cynlluniau ac arbedion disgwylidiedig, rhannu rhwng cyfleoedd cylchol ac anghylchol, osgoi costau, a gostyngiad cyllidebol. Er y dylid asesu pob cynllun arbedion drwy'r offeryn 'Asesiad

⁵ Mae Caspe Knowledge HealthCare Systems (CHKS) yn ddarparwr gwasanaethau deallusrwydd gofal iechyd, meincodi a gwella ansawdd.

⁶ Mae'r Pecyn Cymorth Gwerth, Dyrannu, Defnyddio a Dysgu (VAULT) yn cael ei reoli gan Weithrediaeth y GIG i gefnogi a gwella'r defnydd o adnoddau ar draws GIG Cymru.

⁷ Mae Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf (GIRFT) yn rhaglen sydd wedi'i chynllunio i wella triniaeth a gofal cleifion trwy adolygiad manwl o wasanaethau, meincodi, a chyflwyno sylfaen dystiolaeth sy'n cael ei hysgogi gan ddata i gefnogi newid.

o Effaith ar Ansawdd' pan fo angen a'i brofi i sicrhau nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar y nodau strategol a'r safonau perfformiad cyffredinol y cytunwyd arnynt drwy Gynllun Blynyddol/Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd, mae angen mwy o gysondeb wrth gymhwyso. **(Argymhelliad 4)**

Cyflawni cyfleoedd arbed costau

- 20 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd y canlynol:
- hanes da o gyflawni cynlluniau arbedion a gwelliannau costau;
 - cynlluniau clir ar waith i gyflawni'r cyfleoedd arbed costau y mae'n eu nodi;
 - y sgiliau a'r gallu angenrheidiol i gyflawni ei gyfleoedd arbed costau y cytunwyd arnynt.
- 21 Canfuom fod **targed arbedion 2024-25 y Bwrdd Iechyd yn edrych yn hynod heriol yng nghyd-destun ei hanes diweddar o gyflawni arbedion cylchol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen iddo gryfhau trefniadau atebolrwydd, gosod targedau realistig a chyflawniadwy ar gyfer cynlluniau arbedion unigol, a gwella sgiliau a gallu staff mewn perthynas â chyflawni cynlluniau arbedion.**

Hanes o gyflawni cynlluniau arbedion a gwelliannau costau

- 22 Fel y dangosir yn **Arddangosyn 1**, mae gallu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei dargedau arbedion cyffredinol wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er ei fod wedi dod yn agos at gyflawni ei darged arbedion cyffredinol yn ystod y tair blynedd diwethaf, roedd y mwyafrif o'r arbedion a gyflawnwyd yn anghylchol o ran natur. Roedd arbedion cylchol (fel canran o gyfanswm yr arbedion) yn 44% yn 2023-24, 38% yn 2022-23, a 43% yn 2021-22. Ar ben hynny, nid yw wedi cyrraedd lefel yr arbedion cylchol a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd cyn COVID o hyd. Y £18.2 miliwn o arbedion cylchol a gyflawnwyd yn 2023-24 oedd yr uchaf y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i gyflawni yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n dangos maint yr her y mae'n ei wynebu yn 2024-25, lle nodwyd targed arbedion cylchol o £47.2 miliwn.

Arddangosyn 1 – Hanes arbedion y Bwrdd lechyd rhwng 2018 a 2024

Blwyddyn	Targed Arbedion Cyffredinol (£M)	Arbedion cyffredinol gwirioneddol a gyflawnwyd (£M)	Arbedion cylchol fel % o'r targed arbedion cyffredinol	Arbedion anghylchol a gyflawnwyd (£M)	Arbedion cylchol a gyflawnwyd (£M)
2018-19	33.8	25.6	51%	8.3	17.3
2019-20	26.1	23.2	56%	8.7	14.5
2020-21	29.0	5.1	11%	1.9	3.2
2021-22	16.0	15.7	43%	8.9	6.8
2022-23	19.4	18.2	38%	10.8	7.4
2023-24	32.0	41.4	58%	22.7	18.7

Ffynhonnell: Ffurflenni Monitro Misol Llywodraeth Cymru ac Adroddiadau Cyllid y Bwrdd lechyd

- 23 Byddai hanes y Bwrdd lechyd o gyflawni arbedion rheolaidd yn 2023-24 wedi bod yn waeth nag a adroddwyd pe bai wedi adlewyrchu'r gofyniad arbedion ychwanegol o 10% o £8.8 miliwn yn ei darged arbedion cyffredinol. Roedd gofyniad arbedion Llywodraeth Cymru o 10% ychwanegol i gyflawni cyfanswm diffyg rheoli 2023-24 y Bwrdd lechyd o £16.6 miliwn. Er bod y Bwrdd lechyd wedi adrodd yr angen i gyflawni'r gofyniad ychwanegol o 10% yn gyffredinol, ni chafodd ei darged arbedion gwreiddiol o £32 miliwn ei ddiweddarau i adlewyrchu'r elfen ychwanegol hon. Er bod y Bwrdd lechyd wedi rhagori ar ei darged arbedion gwreiddiol ar gyfer 2023-24 a chyflawni ei gyfanswm rheoli 2023-24, byddai ymgorffori'r targed arbedion ychwanegol wedi darparu darlun mwy cywir o'r arbedion cyffredinol sydd eu hangen ar gyfer 2023-24. Byddai'r ychwanegiad hwn wedi arwain at darged arbedion o £40.8 miliwn a gostyngiad yng nghanran yr arbedion cylchol a gyflawnwyd o 58% i 46%. **(Argymhelliad 5)**

Dull o gyflawni cynlluniau arbedion

- 24 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau digonol ar waith ar gyfer troi ei ofynion arbedion lefel uchel yn gynlluniau arbedion y gellir eu defnyddio. Yn gorfforaethol, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a'r Prif Swyddog Gweithredu yn cynnal cyfarfodydd gosod cyllideb gyda phob Bwrdd Clinigol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn gydag adroddiadau arferol o berfformiad ariannol, gan gynnwys arbedion, i'r Bwrdd Rhaglen Cynaliadwyedd, y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, a'r Bwrdd (gweler **paragraff 31**). Er bod y Bwrdd lechyd wedi nodi bod atebolrwydd ariannol yn agwedd allweddol ar ddisgrifiadau swyddi a'r broses gwerthuso perfformiad, mae cyfle i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach trwy gyhoeddi llythyrau atebolrwydd i Gyfarwyddwyr Gweithredol a Byrddau Clinigol i ffurfioli perfformiad ariannol a disgwyliadau cyflawni arbedion. Mae hyn yn parhau i fod yn bwysicach o ystyried y pwysau ariannol cynyddol a'r gofynion arbedion costau uchelgeisiol o £47.2 miliwn ar gyfer 2024-25. (**Argymhelliad 6**)
- 25 Mae targedau arbedion wedi'u gosod yn ôl meysydd thematig fel rheoli meddyginiaethau, lleihau hyd arhosiad, a chaffael, ochr yn ochr â tharged gwasanaethau ategol o 1.5%.⁸ Mae'r Bwrdd lechyd yn nodi themâu arbed costau trawsbynciol ar lefel uwch a chorfforaethol. Mae uwch staff yn ymwybodol o'r heriau ariannol. Serch hynny, mae'r Bwrdd lechyd yn ymdrechu i gyfleu cynlluniau arbed costau gweithredol gyda'i rhanddeiliaid mewnol allweddol trwy'r strwythurau cyfarfodydd ffurfiol. Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi nodi bod angen cryfhau ymgysylltiad islaw lefelau corfforaethol ac uwch reolwyr i godi ymwybyddiaeth weithredol ar bob lefel ar draws y Byrddau Clinigol. (**Argymhelliad 7**)
- 26 Mae perfformiad cynlluniau arbedion unigol yn ystod 2023-24 yn awgrymu bod lle i'r Bwrdd lechyd osod targedau mwy realistig a chyflawniadwy ar gyfer rhai o'i gynlluniau yn y dyfodol. Er enghraifft, profodd rai diffygion arbedion sylweddol yn erbyn themâu fel hyd arhosiad, gofal iechyd parhaus, a chaffael. Fodd bynnag, ni chafodd hyn effaith sylweddol ar gyflawni'r targed arbedion cyffredinol gan ei fod wedi'i wrthbwysio gan orgyflawni arbedion mewn meysydd eraill, sef effeithlonrwydd y gweithlu (£9.3 miliwn yn erbyn targed o £8 miliwn), ac arbedion ychwanegol heb darged megis adolygu buddsoddiadau, comisiynu a chyfleoedd anghylchol (£0.680 miliwn, £0.730 miliwn, a £3.3 miliwn, yn y drefn honno). (**Argymhelliad 8**)

Sgiliau a gallu i gyflawni cyfleoedd arbedion

- 27 Mae gan y Bwrdd lechyd fwch sgiliau a chapasiti cyffredinol mewn perthynas â'r agweddau ariannol a thrawsnewidiol ar gyflawni arbedion. Ar wahân i'r Tîm Gwerth mewn lechyd (gweler **paragraff 18**), mae gan y Bwrdd lechyd adnoddau arloesi a gwella cyfyngedig ar gael iddo. Ar ben hynny, er bod rôl y Partneriaid Busnes

⁸ Mae targedau arbedion gwasanaethau ategol yn cyfeirio at ostyngiadau costau gorfodol a gyflawnir fel arfer trwy effeithlonrwydd mewn elfennau gwasanaeth nad ydynt yn graidd neu'n ategol a thrwy hynny leihau'r effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth uniongyrchol.

Cyllid⁹ yn uchel ei pharch, roedd cydnabyddiaeth eang o fwlb sgiliau a gallu mwy cyffredinol i gyflawni arbedion costau gweithredol. Adroddwyd bod rhaglen hyfforddi wedi'i chynllunio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn waith ar y gweill ynghyd ag opsiynau i ddefnyddio adnoddau hyfforddi'r Gymdeithas Rheoli Ariannol Gofal Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi rhoi strwythurau ac adnoddau corfforaethol ar waith i asesu effeithiolrwydd y Dogfennau Cychwyn Prosiect (DCPau) arbedion corfforaethol¹⁰. Fodd bynnag, ar adeg ein hadolygiad, roedd yn rhy gynnar i asesu effaith y newidiadau hyn.

- 28 Yn ogystal, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi dangos dealltwriaeth gyflawn o'r sgiliau a'r gallu sydd eu hangen arno i gyflawni newid trawsnewidiol ledled y system a fydd yn hanfodol er mwyn cyflawni'r effeithlonrwydd a'r arbedion sydd eu hangen i gyflawni cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Mae hwn yn faes y bydd angen mynd i'r afael ag ef os yw'r Bwrdd Iechyd yn mynd i fod yn llwyddiannus wrth symud i ffwrdd o'i ddull o gyflawni arbedion anghylchol yn y tymor byr i un lle mae meysydd trawsnewidiol mwy cymhleth o newid yn helpu i gyflawni ei dargedau ariannol yn y dyfodol. **(Argymhelliad 9)**

Monitro a throsolwg o gyflawni arbedion costau

- 29 Fe wnaethom ystyried y canlynol:
- a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o adrodd a monitro cyflawniad ei gynlluniau arbed costau;
 - a yw'n nodi risgiau i gyflawni cynlluniau arbedion a chamau gweithredu i liniaru'r risgiau hynny;
 - a yw'n cymhwyso dysgu pan nad yw cynlluniau arbed costau wedi'u cyflawni.
- 30 Canfuom fod **angen cryfhau trefniadau monitro ac adrodd y Bwrdd Iechyd i ddarparu sicrwydd mwy cadarn ynghylch cyflawni arbedion. Yn ogystal, mae cyfleoedd yn bodoli i wella rheoli risgiau arbedion yn ystod y flwyddyn a chyflwyno dull systematig ar gyfer dysgu gwersi o gynllunio a chyflawni arbedion.**

Adrodd a monitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau arbedion

- 31 Mae angen cryfhau trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawni arbedion. Ar lefel gorfforaethol, mae perfformiad ariannol, gan gynnwys arbedion, yn cael ei adrodd i'r Bwrdd, y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, y Tîm Gweithredol, a'r Bwrdd Rhaglen Cynaliadwyedd. Mae diweddariadau perfformiad

⁹ Mae'r model partner busnes cyllid yn sicrhau ymgysylltiad â rheolaeth ariannol ac yn darparu cysylltiad da rhwng gwasanaethau a chyllid corfforaethol. Mae'r partneriaid busnes ariannol yn gyfrifwyr ariannol sydd â chyfrifoldeb am gefnogi gwasanaethau, adrodd ariannol a darparu rôl gynghorol.

¹⁰ Mae'r Ddogfen Cychwyn Prosiect (DCP) yn diffinio prosiect, yn amlinellu ei ddull rheoli, y risgiau, ac yn asesu llwyddiant cyffredinol, gan sicrhau sylfaen gadarn cyn ymrwymo i wariant mawr.

ariannol wedi'u teilwra ar gyfer pob fforwm ac yn gyffredinol yn darparu trosolwg lefel uchel sy'n canolbwyntio'n bennaf ar arbedion a nodwyd ar gyfer ei gynlluniau arbedion 'coch', 'oren' a 'gwyrdd' yn hytrach nag arbedion gwirioneddol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Er bod yr wybodaeth yn yr adroddiadau yn ddigonol i oruchwyllo cynnydd y Bwrdd lechyd wrth nodi arbedion i gyrraedd targedau cyffredinol, nid yw'n caniatáu i Uwch Arweinyddiaeth na'r Bwrdd graffu nac argymhell gweithredu pan nad yw cynlluniau arbedion unigol ar y trywydd iawn. Mae cyfle hefyd i ddarparu gwybodaeth gliriach ac esboniad o drafodiadau cyfrifyddu technegol neu faterion a allai arwain at ragolygon a pherfformiad arbedion diwedd blwyddyn diwygiedig. **(Argymhelliad 10)**

Nodi risgiau i'r gwaith o gyflawni cynlluniau arbedion

- 32 Mae'r Bwrdd lechyd wedi dogfennu'n ddigonol y risgiau sy'n ymwneud â'i sefyllfa ariannol ehangach. Mae ei allu i fodloni ei ddyletswyddau ariannol statudol, cynhyrchu cynllun tair blynedd cytbwys, a chyflwyno rhaglen gwella costau cylchol yn ymddangos fel risgiau sylweddol o fewn ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (FfSB) a'i Gofrestr Risgiau Corfforaethol (CRC). Mae risgiau cyllid hefyd wedi'u nodi yn yr adroddiadau cyllid arferol i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ynghyd â'r rheolaethau a'r camau adfer y mae'r Bwrdd lechyd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r risgiau.
- 33 Fel pob Corff GIG yng Nghymru, mae'r Bwrdd lechyd yn asesu (system COG¹¹) ei gynlluniau arbedion i bennu maint y risg o beidio â chyflawni. Ym mis 3 2023-24, nododd y Bwrdd lechyd fod 22% o'i gynlluniau arbedion yn 'oren'. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i symud cynlluniau 'oren' i gynlluniau 'gwyrdd' (h.y. tebygolrwydd cryf o gyflawni) o fewn tri mis. Nododd adroddiad cyllid y Bwrdd lechyd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ei fod yn disgwyl datblygu mwy o sicrwydd ar gynlluniau 'oren' fel eu bod yn troi'n 'wyrdd'. Yn gadarnhaol, pedwar mis yn ddiweddarach, ym mis 8 2023-24, adroddodd y Bwrdd lechyd mai dim ond 13% o'i gynlluniau arbedion oedd yn parhau i fod yn 'oren' gan ddangos ei fod yn mynd i'r afael â risgiau arbedion yn gyflym. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn nodi cynlluniau arbedion 'coch' yn ei adroddiadau cyllid i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad sy'n dangos cyfleoedd llif prosiectau y mae angen eu trosi'n gynlluniau cyflawnadwy. Ym mis 12 2023-24, adroddodd y Bwrdd lechyd fod £32 miliwn o gynlluniau â sgôr 'gwyrdd' wedi'u cyflawni, a bod nifer fach o gynlluniau 'ambr' yn parhau i fod yn gyfanswm o £0.498 miliwn. Nid oedd unrhyw gyfleoedd llif prosiectau 'coch' yn aros i'w trawsnewid i gynlluniau cyflawnadwy.
- 34 Er bod y Bwrdd lechyd wedi cynyddu ei arbedion yn sylweddol yn ystod 2023-24, mae'n wynebu sefyllfa fwy heriol yn ystod 2024-25. Mae'r diweddariad diweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Awst 2024 yn asesu methiant i gyrraedd targed arbedion/gwella costau y Bwrdd lechyd fel risg sylweddol, gan nodi mai dim ond £18 miliwn (38%) sydd wedi nodi cynlluniau arbedion 'gwyrdd' ac 'oren' cylchol yn erbyn ei darged arbedion o £47.2 miliwn. Mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd nifer o gamau adweithiol i fynd i'r afael â'r risg gan gynnwys monitro gwell o'r sefyllfa

¹¹ 'Coch', 'Oren', 'Gwyrdd'.

ariannol ddirprwyedig, cyfarfodydd cyllid misol gyda phob Bwrdd Clinigol, cyfarfodydd arbedion wythnosol gyda deiliaid cyllideb, a chyfarfodydd Bwrdd Rhaglen Cynaliadwyedd aml-arweinyddiaeth bob pythefnos.

- 35 Wrth fynd ymlaen, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd gymryd camau mwy rhagweithiol yn ei drefniadau cynllunio a chyflawni arbedion i liniaru risgiau arbedion yn ystod y flwyddyn a chyflawni ei dargedau arbedion gweithredol a chyffredinol. Dylai hyn gynnwys proses ddeinamig o gynlluniau arbedion wrth gefn (Coch) gyda digon o fanylion i'w hysgogi o fewn amserlen fer pan fo angen. Gallai'r rhain hefyd gyfrannu at raglen dreigl o gynlluniau arbedion y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol uniongyrchol a thrwy hynny sicrhau eu bod yn dechrau pob blwyddyn ariannol gyda'r mwyafrif o'r arbedion angenrheidiol wedi'u nodi. **(Argymhelliad 11)**

Cymhwyso'r hyn a ddysgwyd

- 36 Yn ystod 2023-24, dangosodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn gallu ymateb yn gyflym i amgylchiadau ariannol sy'n newid. Nododd yn gyflym £16 miliwn o gamau ychwanegol cylchol ac anghylchol i adennill ei ddiffyg arbedion a chyflawni ei ragolwg diwygiedig o £16.4 miliwn o gyfanswm diffyg rheoli. Ni fyddai wedi cyflawni hyn pe na bai wedi nodi arbedion ychwanegol nac wedi ehangu ffrydiau gwaith allweddol i ystyried arbedion o agweddau eraill ar fusnes y Bwrdd Iechyd. Chwaraeodd Bwrdd y Rhaglen Gynaliadwyedd ran allweddol wrth fonitro cynnydd wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer y camau ychwanegol hyn gan sicrhau eu bod yn trosglwyddo o'u sgôr 'coch' cychwynnol i 'oren' a 'gwyrdd' i roi sicrwydd o'u cyflawni. Dylai'r Bwrdd Iechyd, felly, geisio nodi'r gwersi allweddol o'r profiad hwn a chymhwyso'r hyn a ddysgwyd i'w dull gweithredu o ran arbedion ariannol yn y dyfodol. **(Argymhelliad 12)**

Argymhellion

- 37 Mae **Arddangosyn 2** yn manylu ar yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn. Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion wedi'i grynhoi yn **Atodiad 3**.

Arddangosyn 2: Argymhellion

Argymhellion

- A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei gynlluniau trawsnewid gwasanaeth yn nodi'n fwy penodol sut y byddant yn helpu'r sefydliad i gyflawni cynaliadwyedd ariannol o ran yr arbedion a fydd yn cael eu cynhyrchu a'r amserlen ar gyfer eu cyflawni. **(Paragraff 14)**

Argymhellion

- A2 Dylai'r Bwrdd lechyd wneud gwelliannau i'r ffordd y mae'n defnyddio data a deallusrwydd i lywio ei drefniadau nodi a dethol arbedion trwy'r canlynol:
- A.1 Ymestyn ei ddefnydd o ddata a deallusrwydd ar draws ystod ehangach o wasanaethau. **(Paragraff 15)**
 - A2.2 Gwaith i symud ymlaen yn gyflym ar ei storfa ddata leol i hwyluso'r gwaith o gipio data meincnodi systematig. **(Paragraff 16)**
 - A2.3 Datblygu dull mwy systematig o geisio barn rhanddeiliaid, staff a defnyddwyr gwasanaethau wrth greu syniadau arbedion **(Paragraff 17)**
- A3 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau ei hun bod ei fuddsoddiad yn y Tîm Gwerth mewn lechyd yn cefnogi gwella gwasanaethau, sicrhau canlyniadau gwell, a chyflawni gostyngiadau costau. **(Paragraff 18)**
- A4 Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau ei arweiniad a'i lywodraethu ynghylch prosesau Asesiad o Effaith ar Ansawdd ar gyfer arbedion. Bydd hyn yn sicrhau dull cyson a chlir wedi'i ddogfennu a'i ddeall ar gyfer ystyried ansawdd, diogelwch cleifion, ac effeithiau penderfyniadau arbedion o fewn y Bwrdd lechyd. **(Paragraff 20)**
- A5 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod adroddiadau arbedion yn y dyfodol yn mynegi'n glir yr holl arbedion sydd eu hangen arno i gyflawni mewn blwyddyn benodol i gwrdd â chyfanswm rheoli Llywodraeth Cymru. **(Paragraff 23)**
- A6 Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau atebolrwydd am gyflawni arbedion trwy gyhoeddi llythyrau atebolrwydd i Gyfarwyddwyr Gweithredol a Byrddau Clinigol sy'n darparu eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau a thargedau ariannol. **(Paragraff 24)**
- A7 Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer cyfleu ei gynlluniau arbed costau i staff. **(Paragraff 25)**
- A8 Dylai'r Bwrdd lechyd osod targedau heriol ond realistig ar gyfer ei gynlluniau arbedion unigol a rheoli risgiau i dangyflawni'n fwy effeithiol. **(Paragraff 26)**

Argymhellion

- A9 Mae angen i'r Bwrdd lechyd nodi capasiti a gallu digonol i gyflawni amcanion gwasanaeth tymor hwy (gan gynnwys ym meysydd arloesi a gwella) i gyflawni ei gynlluniau arbedion gweithredol a thrawsnewid gwasanaeth tymor hwy yn effeithiol. **(Paragraff 28)**
- A10 Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau ei adroddiadau ariannol ar arbedion trwy gynnwys cynnydd cyflawni arbedion gwirioneddol ar gyfer pob cynllun yn ystod y flwyddyn i ddarparu sicrwydd cryfach bod cynlluniau arbedion yn cyflawni fel y bwriadwyd. Dylai adroddiadau ariannol hefyd gynnwys atodiad technegol byr i ddarparu gwybodaeth gliriach ac esboniad o drafodiadau cyfrifyddu technegol neu faterion a allai arwain at ragolygon a pherfformiad arbedion diwedd blwyddyn diwygiedig. **(Paragraff 31)**
- A11 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau paratodau cynllunio arbedion cynharach ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 a datblygu rhaglen dreigl o gynlluniau arbedion wrth gefn i helpu i liniaru unrhyw risgiau i dangyflawni arbedion neu pan fo gofynion arbedion yn newid yn ystod y flwyddyn. **(Paragraff 34)**
- A12 Dylai'r Bwrdd lechyd nodi'r gwersi allweddol o'i ddull o nodi a chyflawni arbedion yn ystod 2023-24 a chymhwyso'r hyn a ddysgwyd i'w ddull yn y dyfodol. **(Paragraff 36)**

Atodiad 1

Meini prawf archwilio

Mae **Arddangosyn 3** isod yn nodi'r meini prawf archwilio manwl ar gyfer yr adolygiad hwn.

Nodi cyfleoedd arbed costau

Maes	Meini Prawf Archwilio
Deall ffactorau sy'n effeithio ar gostau	• Mae balans agoriadol y sefydliad yn wir ac yn deg. • Mae gan y sefydliad drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer nodi a dadansoddi'r ystod lawn o ffactorau cyflog a ffactorau nad ydynt yn rhai cyflog sy'n effeithio ar ei gostau yn y tymor byr, canolig a hir. • Mae gan y sefydliad ddealltwriaeth dda o raddfa'r arbedion costau sydd eu hangen i gyflawni cynaliadwyedd ariannol yn y tymor byr, canolig a hir ac mae wedi gosod targedau realistig a chyflawnadwy yn unol â hynny. • Mae'r Bwrdd yn ymwneud yn briodol â goruchwyllo, craffu a herio dadansoddiad ariannol y sefydliad a thargedau arbed costau.
Defnyddio data a deallusrwydd i nodi cyfleoedd arbed costau	• Mae'r sefydliad yn cyrchu ac yn defnyddio gwybodaeth meincnodi o ystod o ffynonellau yn rheolaidd (e.e. Meincnodi GIG, CHKS, Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) Rheoli Meddyginiaethau). • Mae'r sefydliad yn cyrchu ac yn defnyddio data a gwybodaeth effeithlonrwydd yn rheolaidd o ystod o ffynonellau (e.e. Fframwaith Effeithlonrwydd GIG Cymru/VAULT, adolygiadau GIRFT, adolygiadau/cyfleoedd Gofal Iechyd Lleol sy'n seiliedig ar werth).

	• Mae gan y sefydliad brosesau clir ar waith i geisio, casglu ac asesu syniadau ac awgrymiadau ar gyfleoedd arbedion costau gan staff, defnyddwyr gwasanaeth, a rhanddeiliaid eraill yn rheolaidd. • Mae gan y sefydliad brosesau clir ar waith ar gyfer ymateb i gyfleoedd arbed costau a nodwyd yn ganolog gan Fwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd GIG Cymru.
Dewis cyfleoedd arbed costau	• Mae gan y sefydliad broses glir ac ailadroddol ar waith i werthuso'r holl gyfleoedd arbed costau posibl ar gyfer cyflawnadwyedd ac ar gyfer effaith ar gyflawni nodau strategol y sefydliad, amcanion llesiant, iechyd y boblogaeth, ansawdd a diogelwch gwasanaethau, a'r gallu i fodloni targedau perfformiad/manylebau gwasanaeth yn y tymor byr, canolig a hir. • Mae gan y sefydliad broses glir ac ailadroddol ar waith ar gyfer craffu, cytuno a chymeradwyo cyfleoedd arbed costau, sydd hefyd yn cynnwys y Bwrdd a'i bwyllgor(au) perthnasol. • Mae cyfleoedd arbed costau y sefydliad y cytunwyd arnynt: – yn realistig, yn gyflawnadwy, ac yn canolbwyntio ar sicrhau'r gwerth mwyaf i iechyd y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu; – yn cwmpasu ehangder swyddogaethau clinigol, gweinyddol a thechnegol y sefydliad; – yn cydbwysu arbedion untro anghylchol gyda chyfleoedd arbedion mwy cynaliadwy; – yn ymgorffori arbedion cynhyrchiant, ond cydnabod na fydd y rhain yn arwain at ostyngiad mewn termau ariannol; – yn canolbwyntio ar drawsnewid tymor canolig i hirdymor, yn ogystal â chyfleoedd tymor byr a chynyddol; – wedi'u graddio a'u targedu'n briodol ar draws pob rhan o'r sefydliad (yn hytrach na chymhwyso canran safonol ar draws pob rhan.)

Cyflawni cyfleoedd arbed costau

Maes	Meini Prawf Archwilio
Dull o gyflawni cynlluniau arbedion	- Mae gan y sefydliad gynlluniau ar waith ar gyfer cyflawni cyfleoedd arbed costau sy'n nodi'r canlynol yn glir: – yr arbedion ariannol a fydd yn cael eu cyflawni a sut y byddant yn cael eu mesur; – yr effaith a ragwelir ar strategaeth, ansawdd, a/neu berfformiad; – y risgiau, y rheolaethau a'r camau lliniaru allweddol; – unrhyw gyd-ddibyniaeth â chynlluniau arbedion costau eraill; – unrhyw ddibyniaeth ar ffrydiau gwaith a strategaethau sefydliadol eraill; – cerrig milltir cyflawni allweddol; – pa uwch swyddog sy'n gyfrifol ac yn atebol am gyflawni. - Mae gan y sefydliad drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli cynlluniau arbed costau trawsbynciol . - Mae gan y sefydliad drefniadau priodol ar waith i gyfleu ei gynlluniau arbed costau i staff, defnyddwyr gwasanaethau, a rhanddeiliaid eraill.
Sgiliau a gallu i gyflawni cyfleoedd arbedion	- Mae rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â chyflawni cynlluniau arbed costau ar bob lefel o'r sefydliad wedi'u dogfennu a'u deall yn glir. - Mae'r sefydliad wedi asesu'r sgiliau/gallu a'r capasiti sydd eu hangen i gyflawni ei gynlluniau arbed costau ar lefel gorfforaethol a gweithredol ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a bylchau (gan gynnwys y defnydd priodol o gapasiti/arbenigedd allanol.) - Mae gan y sefydliad strwythurau ac adnoddau corfforaethol priodol ar waith (megis Swyddfa Rheoli Rhaglenni) er mwyn:

	– cadw'r gwaith o gyflawni ar y trywydd iawn, – darparu her pan fo angen, – cefnogi staff corfforaethol a gweithredol i reoli risgiau cyflawni, – darparu ymateb ystwyth ac amserol i danberfformiad/tangyflawni.
Hanes o gyflawni cynlluniau arbedion a gwelliannau costau	• Mae cynlluniau arbed costau yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi'u cyflawni i raddau helaeth. • Mae tystiolaeth o'r hyn a ddysgwyd yn cael ei gymhwyso pan nad yw cynlluniau arbedion costau wedi'u cyflawni o'r blaen.

Monitro a throsolwg o gyflawni arbedion costau

Maes	Meini Prawf Archwilio
Monitro cyflawni cynlluniau arbedion	• Mae gan y sefydliad drefniadau clir ar waith ar gyfer monitro cyflawni sy'n adlewyrchu'r amserlenni a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni cynlluniau unigol a'r targed arbedion costau cyffredinol. • Mae'r sefydliad wedi dewis DPAAu allweddol priodol ac wedi rhoi rheolaethau effeithiol ar waith i sicrhau bod ansawdd y data sylfaenol yn ddibynadwy ar gyfer monitro ac adrodd effeithiol. • Mae dull y sefydliad o fonitro a thracio gwaith cyflawni ei gynllun arbed costau wedi'i alinio'n briodol â'i drefniadau rheoli ariannol ehangach (e.e. Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cynlluniau Cadw a Dirprwyo, dyraniadau cyllideb). • Mae'r sefydliad yn cynhyrchu adroddiadau wedi'u teilwra sy'n diwallu anghenion gwahanol ddefnyddwyr yn y gadwyn lywodraethu. • Mae'r sefydliad yn sicrhau bod cyflawni arbedion costau yn cael ei adlewyrchu'n gywir mewn adroddiadau cyllid a gyflwynir i'r Bwrdd a/neu ei bwyllgor(au) perthnasol.

Nodi risgiau i gyflawni cynlluniau arbedion	• Mae'r sefydliad wedi nodi a dogfennu'r risgiau allweddol i'r gwaith o gyflawni ar y cofrestrau risgiau priodol (gweithredol, corfforaethol, a Fframwaith Sicrwydd Bwrdd). • Mae'r sefydliad yn rheoli/liniaru'r risgiau ar y lefel briodol. • Mae gan y sefydliad drefniadau priodol ar waith i nodi a chynyddu cynlluniau arbed costau nad ydynt ar y trywydd iawn a/neu sy'n cael effaith andwyol/annisgwyl ar strategaeth, ansawdd, a/neu berfformiad. • Mae'r sefydliad yn cymryd camau priodol mewn modd amserol pan nad yw cynlluniau arbed costau ar y trywydd iawn a/neu yn cael effaith andwyol/annisgwyl ar strategaeth, ansawdd, a/neu berfformiad.
Cymhwyso'r hyn a ddysgwyd	• Mae'r sefydliad yn ceisio sicrwydd ar ei drefniadau trwy ddefnyddio archwilio mewnol, neu adolygwr annibynnol a gwrthrychol tebyg. • Mae'r sefydliad yn gwerthuso'n briodol ei ddull o gyflawni arbedion costau. • Mae'r sefydliad yn defnyddio ei werthusiadau a'i sicrwydd ei hun a ddarperir gan archwilio mewnol i nodi gwersi a ddysgwyd ac i newid/gwella ei drefniadau. • Mae gwersi a ddysgwyd a newidiadau/gwelliannau yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd a/neu ei bwyllgor(au) perthnasol i alluogi ymateb ystwyth yn ystod y flwyddyn. • Mae gan y sefydliad drefniadau priodol ar waith i drosglwyddo a/neu integreiddio newidiadau sy'n deillio o'i gynlluniau arbed costau i'w weithrediadau a'i weithgareddau busnes fel arfer.

Atodiad 2

Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 4** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

Elfen o'r dull archwilio	Disgrifiad
Hunanasesu	Adolygwyd holiadur hunanasesu wedi'i gwblhau a dogfennau ategol.
Dogfennau	Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys: • Agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd a'r Pwyllgorau; • Strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol; • Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol; • Adroddiadau allweddol mewn perthynas â chyllid sefydliadol; • Adroddiadau a baratowyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Elfen o'r dull archwilio	Disgrifiad
Cyfweliadau	Gwnaethom gyfwrdd â'r canlynol: • Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid – Partner Busnes (3 x Bwrdd Clinigol) • Cyfarwyddwr y Gweithlu a Pherfformiad Ariannol (Meddygaeth) • Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid/Cynllunio Strategol • Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Diwylliant • Cyfarwyddwr Gweithrediadau – Bwrdd Clinigol Menywod a Phlant • Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid • Prif Swyddog Gweithredu
Arsylwadau	Gwnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol: • Y Bwrdd Cyhoeddus • Cyfarfod Bwrdd Arbennig • Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad

Atodiad 3

Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

Arddangosyn 5: Ymateb Rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion archwilio

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei gynlluniau trawsnewid gwasanaeth yn nodi'n fwy penodol sut y byddant yn helpu'r sefydliad i gyflawni cynaliadwyedd ariannol o ran yr arbedion a fydd yn cael eu cynhyrchu a'r amserlen ar gyfer eu cyflawni.	Mae gwaith yn mynd rhagddo ar fodel ariannol hirdymor i'r bwrdd iechyd i gefnogi'r agenda cynaliadwyedd ariannol. Mae gwerth a thrawsnewid yn cynnig cyfleoedd gwych i ddarparu gwasanaethau sy'n fwy effeithiol ac yn cynnig mwy o werth am arian, er nad yw hyn bob amser yn cynnig graddfa o arbedion i	Mehefin 2025 ac yn parhau wrth i gynlluniau ariannol hirdymor esblygu ac addasu	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		fynd i'r afael â gofyniad blynyddol y Bwrdd Iechyd Brifysgol (BIP) o ran arbedion.		
A2	Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud gwelliannau i'r ffordd y mae'n defnyddio data a deallusrwydd i lywio ei drefniadau nodi a dethol arbedion trwy'r canlynol: A2.1 Ymestyn ei ddefnydd o ddata a deallusrwydd ar draws amrywiaeth ehangach o wasanaethau.	Mae gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol ffynonellau da o ddata ar Feincnodi trwy ei Dîm Gwerth gan gynnwys CHKS a data Vault yr Uned Cyflawni	Mai 2025	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
	A2.2 Gwaith i symud ymlaen yn gyflym ar ei storfa ddata leol i hwyluso'r gwaith o gipio data meincnodi systematig.	Ariannol. Mae'r Tîm Cyllid yn datblygu pecyn adroddiadau adnoddau misol mwy cytbwys i gyflwyno data cyfleoedd CHKS allweddol mewn adroddiadau misol yn 2024-25 fel rhan o'i raglen adrodd 'Newid y Sgwrs'. Mae'r cynllun datblygu storfa ddata leol yn cynnwys darparu seilwaith Storfa Ddata Leol sefydlog (ar hyn o bryd yn destun prawf cysyniad) ac integreiddio systemau newydd gan gynnwys Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (e-bresgripsiynu EPMA), Mesurau Canlyniad a Adroddir gan Glaf (PROMs) ac AQUA Theatreman (system theatrau). Y cynlluniau tymor hwy yw amlyncu llawer mwy o wahanol ffynonellau data.	Mehefin 2025	Cyfarwyddwr Digidol

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
	A2.3 Datblygu dull mwy systematig o geisio barn rhanddeiliaid, staff a defnyddwyr gwasanaethau wrth gynhyrchu syniadau arbedion.	Mae Bwrdd Rhaglen Mewnwelediadau Data wedi'i sefydlu, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Deallusrwydd Digidol ac Iechyd, a'i nod yw goruchwyllo a cymeradwyo mewnwelediadau data mewnol a galluoedd adrodd gyda chynrychiolaeth eang o bob rhan o wasanaethau corfforaethol a byrddau clinigol. Mae hwn yn bwriadu hyfforddi partneriaid deallusrwydd busnes a defnyddio a hyfforddi staff priodol ar Power BI yn ogystal â dilyn yr agenda democrateiddio data.	Mawrth 2025 i mewn i 2027- 28	Cyfarwyddwr Digidol

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A3	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau ei hun bod ei fuddsoddiad yn y Tîm Gwerth mewn lechyd yn cefnogi gwella gwasanaethau, sicrhau canlyniadau gwell, a chyflawni gostyngiadau costau.	Mae achosion busnes gwerth yn ddarostyngedig i broses y Bwrdd Buddsoddi sy'n cynnwys proses gwireddu buddion sylweddol ac adolygiad ôl-weithredu a nodir yn ystod y broses gymeradwyo achos busnes.	Mawrth 2025	Cyfarwyddwr Cyllid/Grŵp Buddsoddi
A4	Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau ei arweiniad a'i lywodraethu ynghylch prosesau Asesu Effaith ar Ansawdd ar gyfer arbedion. Bydd hyn yn sicrhau dull cyson a chlr wedi'i ddogfennu a'i ddeall ar gyfer ystyried ansawdd, diogelwch cleifion, ac effeithiau penderfyniadau arbedion o fewn y Bwrdd lechyd.	Mae Asesiadau Effaith ar Ansawdd wedi cael eu defnyddio'n helaeth wrth asesu camau gweithredu posibl sy'n cefnogi cyflawni cynlluniau blynyddol a chynaliadwyedd ariannol yn 2024-25. Maent wedi bod yn destun craffu ymlaen llaw gan y Prif Swyddog Gweithredu (PSG) ac yn cael eu hystyried trwy'r Bwrdd Cynaliadwyedd dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredu (PSG).	Rhagfyr 2024	Cyfarwyddwr Nyrsio

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		Mae'r defnydd estynedig o Asesiadau Effaith ar Ansawdd wedi arwain at dampled safonol newydd yn cael ei ddatblygu gan y Cyfarwyddwr Nyrsio sydd bellach yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn ar ffurflen Asesiadau Effaith ar Ansawdd.		
A5	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod adroddiadau arbedion yn y dyfodol yn mynegi'n glir yr holl arbedion sydd eu hangen arno i gyflawni mewn blwyddyn benodol i fodloni cyfanswm rheoli Llywodraeth Cymru.	Mae'r rhaglen arbedion yn rhan annatod o gynllun ariannol blynyddol y Bwrdd lechyd ac mae'n amcan allweddol wrth gyflawni cyfanswm rheoli Llywodraeth Cymru. Bydd cyfanrwydd y cynlluniau arbedion yn	Mawrth 2025 fel rhan o Gynllunio Ariannol 2025-26	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		cael eu hadrodd mewn cynlluniau ac adroddiadau ariannol yn wahanol i 2023-24 pan gafodd gofynion arbedion eu hadrodd ar wahân.		
A6	Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau atebolrwydd am gyflawni arbedion trwy gyhoeddi llythyrau atebolrwydd i Gyfarwyddwyr Gweithredol a Byrddau Clinigol sy'n darparu egllurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau a thargedau ariannol.	Mae deiliaid cyllideb yn ymwybodol o dargedau arbedion wrth i'r rhain gael eu trafod, eu rhannu a'u datganoli drwy'r broses gynllunio ac yn rhan o gyfarfodydd misol treigl a chyfarfodydd atebolrwydd fel yr Adolygiadau Perfformiad Gweithredol misol a'r cyfarfod . Gweithrediadau Cyllid Misol. Mae llythyrau atebolrwydd wedi cael eu hystyried o'r blaen ac nid ymdriniwyd â nhw. Byddant yn cael eu hystyried eto fel rhan o Broses Cynllun Ariannol 2025-26.	I'w ystyried wrth gynllunio ariannol a gosod cyllideb ar gyfer 2025-26 Ystyriaeth erbyn Ebrill 2026	Cyfarwyddwr Cyllid a Phrif Swyddog Gweithredol

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A7	Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer cyfleu ei gynlluniau arbed costau i staff.	Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn ymgysylltu â'i staff trwy sawl pwynt cyfathrebu, yng nghyd-destun y rhagolygon ariannol a'r angen i nodi a chyflwyno Rhaglenni Lleihau Costau. Bydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn ceisio sicrhau bod y mentrau hyn yn parhau ac yn cael eu cryfhau ac mae'r angen am fwy o ffocws yn cael ei fynegi'n glir i bob aelod o staff. - Gweithgor Cyfathrebu Cynaliadwyedd Ariannol - Tudalen SharePoint corfforaethol a chyfathrebu mewnol	Mehefin 2025	Timau Arweinyddiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cyfan gan gynnwys ond nid wedi'i gyfyngu i Gyfarwyddwyr Gweithredol, Swyddogaethau Corfforaethol, timau rheoli Bwrdd Clinigol ac Arweinwyr Cyllid

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		• Cynaliadwyedd Ariannol – Gohebiaeth Dywedocho Chi, Gwnaethom Ni. • Rhennir negeseuon e-bost staff ar negeseuon cyfathrebu mewnol allweddol sy'n ymwneud â Chynaliadwyedd Ariannol • Cymorth cyfathrebu i bortffolios unigol ym maes rheoli meddyginiaethau, y gweithlu a chaffael • Ymgysylltu â'r holl staff trwy 'Holi Suzanne' – Viva Engage – Fforwm Partneriaeth Leol – Adolygiadau Gweithredol y Bwrdd Clinigol Yn ogystal â'r mentrau Bwrdd Iechyd Prifysgol/Corfforaethol hyn, mae pob Bwrdd Clinigol yn cyflwyno llu o fesurau i gyfleu'r her ariannol a'r		

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		angen am effeithlonrwydd o fewn eu strwythurau adrodd eu hunain. Darparwyd y rhain i gydweithwyr Archwilio Cymru.		
A8	Dylai'r Bwrdd lechyd osod targedau heriol ond realistig ar gyfer ei gynlluniau arbedion unigol a rheoli risgiau i dangyflawni'n fwy effeithiol.	Mae hon wedi bod yn sefyllfa sydd wedi'i chyfleu o ran dyheadau cyflawni arbedion hyd yma gan gydnabod y risg na fydd pob cynllun yn cael ei gyflawni neu, os caiff ei gyflawni, nid o reidrwydd o fewn yr amserlen neu'r gwerth a ragwelwyd i ddechrau. Mae'r traciwr arbedion sy'n cael ei ddiweddarau'n wythnosol, gan ddefnyddio'r sicrwydd sgôr	Ebrill 2025	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Deiliaid Cyllideb

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		Gwyrdd/Oren/Coch, yn cael ei ddefnyddio'n genedlaethol yng Nghymru. Yn seiliedig ar gylch craffu ac adrodd treigl, mae proses ail-fywiogi yn digwydd yn ystod y flwyddyn i sicrhau cynlluniau newydd i ddisodli diffygion.		
A9	Mae angen i'r Bwrdd Iechyd nodi capasiti a gallu digonol i gyflawni amcanion gwasanaeth tymor hwy (gan gynnwys ym meysydd arloesi a gwella) i gyflawni ei gynlluniau arbedion gweithredol a thrawsnewid gwasanaeth tymor hwy yn effeithiol.	Bu cynnydd treigl mewn personél yn adran y Prif Swyddog Gweithredu i helpu i gyflawni perfformiad yn well o ran gweithgarwch a defnydd effeithiol o adnoddau. Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn parhau i gefnogi tîm Llundio Newid a thîm Arloesi. Mae'r rhain wedi bod yn rhan helaeth o'r broses o gyflwyno Digwyddiad Cyflawni Cyflym ar draws y Bwrdd Iechyd Prifysgol ym mis Rhagfyr 2024 a oedd yn cynnwys 200 o gydweithwyr arweinyddiaeth.	Ionawr 2025	Swyddfa'r Prif Swyddog Gweithredu Tîm Llundio Newid Tîm Arloesi

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A10	Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau ei adroddiadau ariannol ar arbedion trwy gynnwys cynnydd cyflawni arbedion gwirioneddol ar gyfer pob cynllun yn ystod y flwyddyn i ddarparu sicrwydd cryfach bod cynlluniau arbedion yn cyflawni fel y bwriadwyd. Dylai adroddiadau ariannol hefyd gynnwys atodiad technegol byr i ddarparu gwybodaeth gliriach ac esboniad o drafodiadau cyfrifyddu technegol neu faterion a allai arwain at ragolygon a pherfformiad arbedion diwedd blwyddyn diwygiedig.	Mae arbedion misol gwirioneddol yn cael eu hadrodd drwy'r ffurflenni monitro misol i Lywodraeth Cymru drwy broses tracio arbedion y Bwrdd lechyd. Gellir adolygu'r pwynt a godwyd ar faterion cyfrifyddu technegol i sicrhau cysondeb adrodd ar draws y cynulleidfaoedd lluosog. Mae hon yn cael ei hamlygu fel eitem ar wahân yn ffurflenni monitro misol Llywodraeth Cymru.	Mawrth 2025	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A11	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau paratodau cynllunio arbedion cynharach ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 a datblygu rhaglen dreigl o gynlluniau arbedion wrth gefn i helpu i liniaru unrhyw risgiau i dangyflawni arbedion neu pan fo gofynion arbedion yn newid yn ystod y flwyddyn.	Dyna yw'r bwriad bob amser. Nod canllawiau cynllunio mewnol a gyhoeddwyd ar gyfer 2025/26 yw dwyn yr amserlen gynllunio ymlaen gydag uchelgais o gael cynllun arbedion wedi'i ddatblygu'n llawn cyn 1 Ebrill.	Mawrth 2025	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid
A12	Dylai'r Bwrdd lechyd nodi'r gwersi allweddol o'i ddull o nodi a chyflawni arbedion yn ystod 2023-24 a chymhwyso'r hyn a ddysgwyd i'w ddull yn y dyfodol.	Mae ein dull o nodi a chyflawni arbedion yn parhau i fod yn ystwyth i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y gwersi a ddysgwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Mae ein dull wrth i fynd i mewn i flwyddyn ariannol newydd yn cael ei drafod trwy'r Weithrediaeth Reoli a'r Bwrdd i sicrhau bod y Bwrdd lechyd Prifysgol yn gallu darparu a manteisio i'r eithaf	Mawrth 2025	Tîm Gweithredol

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		ar gyfleoedd ariannol sy'n ysgogi gwerth gorau.		



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.